
Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Llun, 4 Hydref 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.00 0300 200 6565
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

O bell – Pecyn atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

6.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r

Cyfansoddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd – 22 Medi.

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad

Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu,
Dedfrydu a'r Llysoedd – 30 Medi 2021

9 Ystyriaeth o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Lluoedd

Arfog

(17.15 – 17.30)

(Tudalennau 3 – 9)

Dogfennau atodol:

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil y Lluoedd Arfog

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil y Lluoedd Arfog

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Saesneg yn
unig)





Ein cyf/Our ref MA-JH-3249/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

28 Medi 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Medi ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd.

Roeddwn yn falch o allu cyflwyno'r Memorandwm i chi ddydd Llun 20 Medi. Rwyf wedi ateb eich cwestiynau fel y nodir isod.

Cwestiwn 1: Rhoddir cyfiawnhad dros ofyn am gydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau a ganlyn yn fyr ym mharagraff 9 a pharagraff 10 o'r Memorandwm:

Cymal 1 (Cyfamod yr Heddlu);

Cymal 2 (Cynnydd yn y gosb am ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys);

Cymalau 7-8, 10-16, 19-22 (Swyddogaethau'n ymwneud â thrais difrifol); a Chymalau 23-35 (Adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus).

A oes modd i chi ddarparu manylion ychwanegol i roi esboniad, a chadarnhau, pam y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn?

Cymal 1 - 'Cyfamod yr Heddlu'. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyfamod yr Heddlu a chyflwyno hon i'r Senedd. Gall yr adroddiad blynyddol ar hynt y gwaith o ran y Cyfamod ymwneud â materion datganoledig fel gwasanaethau iechyd a chymorth i deuluoedd. Gall y cymal ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, GIG Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol am effeithiau gwasanaeth yn yr heddlu ar faterion fel iechyd a llesiant, cymorth i deuluoedd ac unrhyw fater arall y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei ystyried yn briodol. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y gallai rhai o'r materion y bydd angen ymdrin â hwy yn yr adroddiad blynyddol ar hynt y gwaith o ran y Cyfamod ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 1

Cymal 2 – Cynyddu'r gosb am ymosod ar weithiwr brys. Mae hwn yn diwygio adran 1 o Ddeddf Ymosodiadau ar Weithwyr Brys (Troseddau) 2018, gan gynyddu'r gosb o 12 mis i 2 flynedd. Diben cyffredinol cynyddu'r gosb am y drosedd hon yw diogelu gweithwyr y gwasanaethau brys (drwy atal pobl ymhellach rhag cyflawni'r drosedd) a thrwy hynny ddiogelu'r gwasanaethau a'r unigolion hynny. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig gan fod ei nod yn cynnwys amddiffyn gweithwyr y GIG a'r rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cymalau 7-8, 10-16, 19-22 (Swyddogaethau sy'n ymwneud â thrais difrifol) – Bydd dyletswydd newydd yn cael ei rhoi ar gyrff cyhoeddus penodedig i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol, gyda dyletswydd i baratoi a gweithredu strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau datganoledig yng Nghymru megis Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd trais difrifol fod yn ddarostyngedig i'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cymalau 23-35 (Adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus) – Bydd adolygiadau'n dwyn ynghyd bartneriaid diogelu lleol i gynnal adolygiad ffurfiol o laddiadau lle defnyddiwyd arfau tramgwyddus. Mae'r partneriaid sy'n gyfrifol am yr adolygiad yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig megis Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud ag adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus fod yn ddarostyngedig i'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cwestiwn 2: Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad i gymal 9, cymal 17 a chymal 18 o'r Bil. Mae hyn oherwydd pryder y byddai'r darpariaethau'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddiadau at ddibenion gorfodi'r ddyletswydd trais difrifol, a allai o bosibl gynnwys cyhoeddi cyfarwyddiadau ar faterion datganoledig sy'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau datganoledig Cymru. A oes modd i chi egluro pa faterion datganoledig yr ydych yn cyfeirio atynt?

Bydd y ddyletswydd trais difrifol yn rhoi cyfrifoldebau ar nifer o awdurdodau cyhoeddus i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol. Mae rhai o'r gyrff hynny'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau datganoledig Cymru. Y rhain yw: Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ac Awdurdodau Tân ac Achub. Yn ogystal, bydd rhai cyfrifoldebau'n cael eu rhoi ar sefydliadau addysgol i gydweithio.

Fel y'i darlennir ar hyn o bryd, byddai'r Bil yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r awdurdodau hyn i gydweithio heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn obeithiol y bydd gwelliant yn cael ei osod i rwymo'r Ysgrifennydd Gwladol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn defnyddio'r pŵer hwn pan fydd hynny ar gyfer materion datganoledig.

Cwestiwn 3: A oes modd i chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y cymalau a ganlyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac, ar ben hynny, egluro pam y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r cymalau hyn: Cymalau 36-37 a 40-41 (Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig); a Cymal 43 (Mechniaeth cyn cyhuddo).

Gellir dweud mai diben cyffredinol y pŵer i echdynnu gwybodaeth o ddyfais electronig yn y ddarpariaeth hon yw amddiffyn neu ddiogelu unigolion. Un o'r amgylchiadau lle gellir defnyddio'r ddarpariaeth hon yw er mwyn amddiffyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae materion diogelu yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac ymdrinnir â hwy yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er enghraifft.

Cwestiwn 4: A oes modd i chi egluro pam na chrybwyllir cymal 38 a chymal 39 yn y Memorandwm, o ystyried eu bod yn rhan o'r gyfres o ddarpariaethau sy'n ymdrin ag echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig (y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cael cydsyniad ar ei gyfer)?

Yn hytrach na'r cymalau y cyfeirir atynt yng Nghwestiwn 3, nid oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymalau 38 a 39 gan fod prif ddiben y cymalau hyn yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o ran atal, canfod ac ymchwilio i droseddau.

Cwestiwn 5: A oes modd i chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cymal 42 (personau awdurdodedig) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac egluro a yw'n ystyried y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r cymal hwnnw?

O ystyried y diffiniadau eang o bwy y gellir eu henwebu'n bersonau awdurdodedig, swyddog ymchwilio ac awdurdod erlyn yng nghymal 42 (fel y nodir isod), mae'n debygol y gallai hyn gynnwys swyddogion ac awdurdodau nad ydynt wedi'u cadw'n ôl, megis Awdurdodau Lleol.

Byddem yn argymhell rhoi cydsyniad i gymal 42.

Cwestiwn 6: A oes modd i chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai effaith cymal 46 (Difrod troseddol i gofebau: dull y treial) fyddai cynyddu'r ddeddfryd bosibl am ddifrod troseddol i garchar am oes mewn amgylchiadau lle'r oedd y diffynnydd yn bwriadu peryglu bywyd neu yn gwneud hynny yn ddi-hid? Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor bod y drosedd hon yn dditiadwy yn unig ac felly ei bod eisoes yn denu'r gosb uchaf o garchar am oes o dan adran 4(1) o Ddeddf Difrod Troseddol 1971.

Rydym yn cytuno bod trosedd o dan adran 1 (2) o Ddeddf Difrod Troseddol 1971 o ddifrodi eiddo gan beryglu bywyd (yn fwriadol neu'n ddi-hid) yn drosedd dditiadwy yn unig eisoes ac y gallai arwain at garchar am oes. Fodd bynnag, effaith adran 22 a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1971, yw os yw gwerth y difrod i'r eiddo yn is na £5,000, p'un a oedd bywyd mewn perygl ai peidio oherwydd y difrod/dinistr, mae'r dull o gynnal y treial (ac felly'r ddeddfryd y gellid ei rhoi) yn destun newid. Yr unig droseddau o dan adran 1 o Ddeddf 1971 sydd wedi'u heithrio o effaith Atodlen 2 i Ddeddf 1980 yw troseddau lle mae'r difrod neu'r dinistr yn cael ei achosi gan dân.

Y diwygiad a wneir gan gymal 46 yw eithrio cymhwyso Atodlen 2 i droseddau pan fo (a) y difrod/dinistr yn cael ei achosi gan dân a (b) unrhyw droseddau pan fo'r difrod/dinistr i gofeb.

Cwestiwn 7: Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymal 59 (Achosi niwsans cyhoeddus), a'i bod yn dal yn ôl ei chydsyniad i gymalau 61 i 63 (Gwersylloedd diawdurdod). A allwch chi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer y pedwar cymal?

Gwersylloedd diawdurdod

Mae'r cymalau hyn yn ymwneud â throseddau o fyw ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu gyda cherbyd, ac â phwerau i atafaelu a fforffedu cerbydau. Gan fod y cymalau'n ymwneud


â defnyddio tir, atal meddiannu tir yn anghyfreithlon ac ymddygiadau cysylltiedig, gellid dadlau eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Achosi niwsans cyhoeddus

Mae Rhan 3, Adrannau 54-60 o'r Bil yn nodi nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â chyfarwyddiadau a throeddau trefn gyhoeddus. Mae'r elfen sŵn yn yr adrannau hyn yn ymwneud â mater datganoledig, sef diogelu'r amgylchedd.

Mae adran 59 yn darparu ar gyfer trosedd o achosi niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae hon yn disodli'r drosedd cyfraith gyffredin bresennol o niwsans cyhoeddus ac yn creu trosedd statudol newydd a all gynnwys ystod eang o ymddygiad.

Yr eiddoch,



Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon